PWYLLGOR PENODI - CYFARWYDDWR CORFFORAETHOL ADNODDAU

DYDD LLUN, 29 HYDREF 2018

| | |
|---|---|
| Yn bressenol: | Cynghorydd Huw Thomas(Cadeirydd) |
| | Cynghorwyr Berman, Mackie, Robson a/ac Weaver |

25 : YMDDIHEURIADAU (OS O GWBL)

Nid oedd ymddiheuriadau i'r cyfarfod hwn.

26 : DATGAN BUDDIANNAU

Doedd dim datganiadau buddiannau ar gyfer y cyfarfod hwn.

27 : CYLCH GORCHWYL

Nodwyd y Cylch Gorchwyl fel a ganlyn:

"Cyflawni swyddogaethau'r awdurdod o ran penodi a diswyddo Prif Swyddogion a Dirprwy Prif Swyddogion (fel y'u diffinnir yn Rheoliadau Awdurdodau Lleol (Gorchmynion Sefydlog) (Cymru) 2006) a Phennaeth statudol Gwasanaethau Democrataidd, yn unol â'r Rheolau Gweithdrefnau Cyflogaeth ac unrhyw bolisïau a gweithdrefnau perthnasol y Cyngor."

28 : COFNODION

Cymeradwyo cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 5 Hydref 2018 fel cofnod cywir.

29 : EITHRIO'R CYHOEDD

PENDERFYNWYD: Bod y cyhoedd yn cael eu heithrio yn ystod y drafodaeth ar yr eitem busnes canlynol ar y sail, pe bai aelodau o'r cyhoedd yn bresennol yn ystod y drafodaeth, oherwydd natur y busnes a oedd i'w drafod, y byddai'n eu datgelu iddynt hwy o'r wybodaeth wedi'i heithrio fel y'i diffinnir yn rhan 4 o Atodlen 12A o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972 ac fel y disgrifir isod: -

Paragraff 12 – Gwybodaeth sy'n ymwneud ag ymgeisydd yn dod yn gyflogai i'r Awdurdod:-

Paragraff 13 – Gwybodaeth a oedd yn debygol o ddatgelu pwy oedd yr unigolyn.

30 : PENODI CYFARWYDDWR CORFFORAETHOL ADNODDAU A SWYDDOG ADRAN 151

Cafodd y Pwyllgor Penodi ar gyfer swydd Cyfarwyddwr Corfforaethol Adnoddau a Swyddog Adran 151 ei ailymgynnull i dderbyn ac ystyried canfyddiadau'r Ganolfan Asesu.

Cyflwynodd Amanda Pigny, yr Asesydd Arweiniol Allanol, y canfyddiadau o ymarferion y ganolfan asesu a'r sgoriau cyffredinol a roddwyd ar gyfer pob un o'r cymwyseddau ymddygiadol sy'n ofynnol ar gyfer y rôl gan Ymgeiswyr 1, 2 a 3.

Wrth wneud ei benderfyniad, gwnaeth y Pwyllgor ystyried cais gwreiddiol pob ymgeisydd, sut wnaeth yr ymgeisydd sgorio yn erbyn y cymwyseddau oedd eu hangen ar gyfer y rôl, yr asesiad ysgrifenedig ar bob un o'r tasgau oedd yn mynd ar ôl cryfderau a sgiliau'r ymgeiswyr.  Cytunodd y Pwyllgor ar yr ymgeiswyr a fyddai'n symud ymlaen at gyfweliad ffurfiol.

Gwnaeth y Pwyllgor ystyried yr opsiynau pwnc cyflwyno a gosod cwestiynau ar gyfer y broses gyfweld.

PENDERFYNWYD:  Bod:

1. Ymgeiswyr 1 a 2 yn cael eu gwahodd i gyfweliad.

2. Yr ymgeiswyr yn cael gwybod testun y cyflwyniad a bod uchafswm o 10 munud yn cael ei neilltuo ar gyfer hwnnw.

3. Y cwestiynau terfynol yn cael eu gorffen ar gyfer y Pwyllgor cyfweld.

31 : DISWYDDO (OS OES ANGEN)

Nid oedd angen unrhyw ddiswyddo dilynol fel rhan o'r broses o lunio rhestr hir.

32 : DYDDIAD Y CYFARFOD NESAF - DYDD GWENER 2 TACHWEDD 2018 AM 1:00PM

Cytunwyd mai dyddiad y cyfarfod nesaf yw Dydd Gwener 2 Tachwedd 2018 am 1:00pm.